CYNGOR CYMUNED LLANFAIR MATHAFARN EITHAF

COFNODION o Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Goronwy Owen, Benllech ar Nos Lun, 23 Ebrill, 2018 am 7.00 o'r gloch.

PRESENNOL Mr R O Jones, (Cadeirydd), (Benllech A), Ms G M Davies, (Benllech A), Mrs S Edwards, (Benllech B), Mrs B E Gall, (Benllech B), Mr K F Griffiths, (Benllech A), Mrs C A Hulme, (Benllech B), Mr G Owen, (Llanbedrgoch), Mrs W Owen, (Llanbedrgoch), Mr I Williams, (Benllech B).

200 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y canlynol :- Mr P Day, (Benllech B), Mr G Harker-Roberts, (Brynteg), Mr D Humphreys, (Benllech B).

201 DATGANIADAU O DDIDDORDEB.

Ni dderbyniwyd unrhyw Ddatganiadau o Ddiddordeb.

202 COFNODION.

Llofnododd y Cadeirydd Gofnodion Cyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ar y 26ain o Fawrth 2018.

LLWYBRAU FFYRDD A PHALMENTYDD.

203 MATERION PRIFFYRDD AMRYWIOL.

Adroddwyd gan aelodau – amrywiol faterion oedd angen sylw.

GOHEBIAETH

204 CYNGOR SIR YNYS MON - STRATEGAETH GYMRAEG 2016/2021.

Cyflwynwyd - dogfen yn egluro Strategaeth Gymraeg Cyngor Sir Ynys Mon a'r cyfraniad a ddisgwylir gan Gynghorau Tref a Chymuned yn eu hardaloedd perthnasol. Gofynnir i bob Cyngor enwebu Pencampwr Iaith i ganolbwyntio ar gynyddu defnydd o'r Gymraeg.

PENDERFYNWYD – enwebu Mr Gareth Owen fel Pencampwr Iaith y Cyngor.

205 STEVE MORGAN FOUNDATION – ARIANNU ANABLEDD.

Cyflwynwyd er gwybodaeth - llythyr gan y Steve Morgan Foundation yn egluro fod cymorth ar gael i ariannu cyfarpar arbenigol tuag at bobl gydag anabledd.

206 CYNGOR SIR YNYS MON – SIARTER CYMUNED AR Y CYD. (DRAFFT).

Cyflwynwyd er gwybodaeth – drafft o Siarter Cymuned ar y Cyd (27 Chwefror 2018) yn manylu cyfrifoldebau y Cyngor Sir a'r Cynghorau Tref a Chymuned er budd cymunedau lleol.

TALIADAU A CHYFRIFON

207 BILIAU.

Edwards Accounting	Paratoi gwybodaeth	£30-00
Eira Fon Parry	Gwasanaeth cyfieithu	£56-00
Lingo Cyf	Hurio offer cyfieithu	£36-00
G E Pritchard	Ad-daliad papur llungopio	£21-00
Cyngor Sir Ynys Mon	Treth Anomestig Maes Parcio	£706-75
Anglesey Mowers	Coed Nadolig 2015/16	£700-00
Photostatic	Llungopio	£10-08
CCTV Services	Ail weithio Linc	£1309-92

208 CYFRIFON.

Cyflwynwyd – cyfrif yn dangos manylion y taliadau a wnaethpwyd gan y Clerc (yn cynnwys taliadau o dan gynllun dirprwyo cyfredol y Cyngor) ym Mawrth 2018.

PENDERFYNWYD – i nodi'r cyfrif a chytuno'r taliadau.

209 CYLLIDEB Y CYNGOR.

Cyflwynwyd – manylion o dderbyniadau a gwariant y Cyngor i gymharu a'i gyllideb am y cyfnod o 1 Ebrill 2017 i ddiwedd Mawrth 2018.

PENDERFYNWYD – i nodi a chytuno'r manylion.

MATERION CYFFREDINOL

210 CYFRIFON 2016/2017.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – crynodeb o Dderbyniadau a Thaliadau'r Cyngor am 2016/17 yn unol a'r Rheolau Sefydlog. Byddai Cyfrifon mwy manwl yn cael ei cyflwyno i'w cymeradwyo yn y cyfarfod nesaf.

211 ASESIAD RISG 2016/2017.

Cyflwynwyd – asesiad risg drafft 2016/2017 i'w gymeradwyo.

PENDERFYNWYD – cymeradwyo'r ddogfen fel ac yr oedd.

212 CAER BERLLAN.

Derbyniwyd cais gan dair myfyrwraig leol sydd yn dilyn cwrs Arlunio a Dylunio Lefel 3 i gwblhau 30 awr o waith gwirfoddol yn y gymuned. Eu bwriad oedd cyflawni murlun yng nghae chwarae Caer Berllan wedi ei ddylunio gan ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 yn Ysgol Goronwy Owen.

PENDERFYNWYD – cytuno'r cais a chroesawu'r bwriad. Yn ogystal i wneud cyfraniad ariannol tuag at y defnyddiau fyddeu hangen.

213 DEFNYDD SWYDDFA.

Gan fod cyflenwr presennol y Cyngor wedi symud o Borthaethwy i Fangor i safle anodd i gasglu defnydd sylweddol, awgrymodd y Clerc defnyddio cwmni ASL a oedd yn gyfrifol am y Llungopiwr presennol. Buasai ASL yn danfon nwyddau i Swyddfa'r Cyngor.

PENDERFYNWYD – trafodwyd y mater ac awgrymwyd efallai buasai'n bosib defnyddio cyflenwyr Cyngor Sir Ynys Mon oedd yn manteisio ar ddisgowntiau sylweddol oherwydd maint eu defnydd. Cytunodd y Cynghorydd Ieuan Williams wneud ymholiadau pellach gyda'r adran berthnasol yng Nghyngor Sir Ynys Mon.

214 CLERC NEWYDD.

Eglurodd y Clerc fod cais pellach am swydd y Clerc wedi ei dderbyn ac roedd bwriad i alw'r ymgeisydd am gyflwyniad yn yr wythnosau nesaf.

CYNLLUNIO

215 CEISIADAU

PENDERFYNWYD – ar y ceisiadau cynllunio o flaen y Cyngor fel a ganlyn :-

1. Caniatau :

30C705B/VA	Pen y Cwm, Bwlch.
30C822LUC	Dalarna, 1 Fern Hill, Benllech
30C824	Hillcrest, Tynygongl.
30C161A	The Slipway, Harry's Way, Traeth Coch.
30C823	19 Lon Twrcelyn, Benllech.
30C826	Y Wern, Ffordd Amlwch, Benllech.

2. Gwrthod :

30C756B/DEL	Min y Ffrwd, Brynteg – defnyddiau bwriedig i weld allan o gymeriad gyda thai cyfagos yn yr ardal.

Terfynwyd y Cyfarfod am 8-30 yr hwyr.